

Rhaglen brechu MenC – gwybodaeth i rieni am newidiadau

O'r 1af Gorffennaf 2016, mae'r drefn ar gyfer brechiad meningococaid C (MenC) yn newid.

Mae MenC yn salwch difrifol a achosir gan straen C bacteria meningococaid. Oherwydd llwyddiant y rhaglen frechu MenC does bron ddim achosion o afiechyd MenC mewn babanod neu blant ifanc yn y DU erbyn hyn. Mae rhaglenni brechu'n cael eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gwarchod eich babi yn y ffordd orau, pan mae arno eu hangen fwyaf. Bydd pob plentyn yn parhau i gael cynnig brechiad Hib/MenC cyfun yn 12 - 13 mis oed. Bydd hyn, yn ogystal â'r brechiad MenACWY i bobl ifanc yn eu harddegau, yn helpu i warchod rhag MenC ar draws pob grŵp oedran, gan gynnwys babanod a phlant.

Beth rydd raid i mi ei wneud nawr?

Does dim angen i chi wneud unrhyw beth. Bydd y newidiadau i'r rhaglen MenC yn digwydd yn awtomatig ar 1af Gorffennaf 2016. Mae'r brechiad MenC wedi gweithio mor dda fel bod eich babi'n cael ei ddos cyntaf (gyda Hib) o'i ben blwydd cyntaf yn awr.

Pa frechiadau fydd fy mabi'n eu cael i helpu i warchod yn erbyn llid yr ymennydd?

Dylai eich babi gael brechiadau arferol fel Hib, niwmococol a MenB yn wyth wythnos, deuddeg wythnos ac un wythnos ar bymtheg oed a dylai gael brechiad Hib/MenC a dosys pellach o MenB a niwmococol yn 12 - 13 mis oed.

Cadwch lygad, byddwch yn barod

Gall llid yr ymennydd (haint ar yr ymennydd) a septisemia (gwenwyn yn y gwaed) gael eu hachosi gan wahanol heintiau felly mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn ymwybodol o arwyddion a symptomau'r afiechydon yma.

Arwyddion cynnar - Dylech gael cymorth meddygol neu ffonio am ambiwlans ar unwaith os ydych chi'n amau achos o lid yr ymennydd neu septisemia. Dilynwch eich greddf. Mae'r symptomau'n cynnwys gwres uchel ac unrhyw rai o'r canlynol:

poen yn y cyhyrau neu'r cymalau, fel y dwylo neu'r coesau	anadlu'n gyflym neu batrymau anadlu anarferol
dwylo a thraed anarferol o oer, neu'n crynu	dryswch a/neu gur pen
croen gwelw neu gochlyd a gwefusau glas, gwrthod bwydo, taflu i fyny	smotiau neu frech sydd ddim yn colli ei lliw dan bwysau
teimlo'n swrth heb ymateb i chi, anodd ei ddeffro	ffitiau o unrhyw fath
llypa a dim egni, neu'n stiff ac yn symud yn herciog	y <i>fontanelle</i> (y darn meddal ar dop pen eich babi) yn chwyddo am allan
pigog wrth gael ei godi	gwddw stiff
grwgnach neu grio cwynfanus main	ddim yn hoffi gweld golau llachar

Gall y symptomau ddigwydd mewn unrhyw drefn ac efallai na fydd rhai'n ymddangos o gwbl. Os ydych chi'n pryderu am eich babi ar unrhyw adeg, dilynwch eich greddf a siaradwch gyda'ch meddyg teulu neu eich nyrs neu ffoniwch Galw Iechyd Cymru 24 awr y dydd ar 0845 04647.

Mae rhagor o wybodaeth a disgrifiad llawn o symptomau llid yr ymennydd ar gael ar wefan Galw Iechyd Cymru: <http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/m/article/meningitis/#Symptoms>
Hefyd mae rhagor o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gael gan:

Meningitis Research Foundation Llinell Gymorth Am Ddim 080 8800 3344 www.meningitis.org

Meningitis Now Llinell gymorth rhwng 9am a hanner nos 0808 80 10 388 www.meningitisnow.org

